

METHODOLEG YR AROLWG

Paratowyd gan Melian Dialogue

ar gyfer

Cyngor Archifau a Chofnodion Cymru

Ariannwyd gan Lywodraeth Cymru



Cynnwys

Methodoleg yr Arolwg	4
1.1 Fframwaith yr Arolwg	4
1.2 Amcanion yr arolwg	4
1.3 Staffio Prosiect yr Arolwg.....	5
1.4 Data i'w gasglu	5
1.4.1 Data Gweinyddol.....	5
1.4.2 Disgrifiad ac Arwyddocâd	5
1.4.3 Gwybodaeth Sensitif a Geiriad	6
1.4.4 Hygyrchedd	6
1.5 Data ar y gwaith sydd angen ei wneud	7
1.5.1 Gwaith ar sail cyflwr	7
1.5.2 Gwaith Hygyrchedd/Cyfieithu	7
1.5.3 Teitlo ac Ail-ddisgrifio Beirniadol	7
1.5.4 Data ar Digido a Mynediad Ar-lein	8
1.6 Dulliau'r Arolwg	8
1.6.1 Dulliau Samplu	8
1.6.2 Arolwg ar sail Termau	8
1.6.3 Arolwg ar sail Digwyddiad/Cyd-destun.....	9
1.6.4 Arolwg ar sail Enw/Ffigur.....	9
1.6.5 Arolwg ar sail Caffael neu Fynediad.....	9
1.6.6 Arolygon dan arweiniad y Gymuned.....	9
1.7 Gweithdrefnau'r Arolwg	10
1.8 Adroddiadau'r Arolwg.....	10
1.9 Llyfryddiaeth	11
Atodiad A: Rhestr Derminoleg	12
Atodiad B. Taflen arolwg peilot	36
Atodiad C. Banc Cwestiynau ar gyfer Arolwg Staff y Sector Diwylliannol	38
I. Demograffeg y sefydliad	38
II. Cynrychioli Lleisiau Amrywiol mewn Cynnwys	42
III. Amrywiaeth Ethnig Defnyddwyr	44
IV. Arferion Gorau	46
V. Asesiad Casgliadau	46
Gwybodaeth am yr Awduron	50

Methodoleg yr Arolwg

Yn y trosolwg damcaniaethol, rydym wedi pennu fod arolygon casgliadau'n cymryd llawer o amser, a bod angen i weithwyr casgliadau gasglu llawer iawn o ddata; felly, mae'n hanfodol dechrau drwy:

1. ddisgrifio diben clir ac amcanion perthnasol,
2. diffinio cwrpas yr arolwg,
3. ystyried y cymunedau o ddefnyddwyr, a
4. cheisio manteisio i'r eithaf ar digido a mynediad ar-lein er mwyn sicrhau cyrhaeddiad ehangach.

O ran y prosiect "Datgelu Profiadau Bywyd Go lawn Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru" nod methodoleg yr arolwg hwn yw darparu man cychwyn i bob aelod staff archifau, llyfrgelloedd ac amgueddfeydd yng Nghymru er mwyn gwella ymgysylltiad cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig gyda'u casgliadau. Yn fwy penodol, nod methodoleg yr arolwg hwn yw datgelu a chynnig mynediad i ddeunyddiau sy'n berthnasol i hanesion cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru wrth gynnal safbwynt hanfodol yn erbyn ail-gynhyrchiad naratifau hiliol a chydabod a diwygio yn rhagweithiol cynrychiolaeth o'r fath.

At y perwyl hwn, rydym yn cynnig methodoleg sy'n cyfuno arolwg fesul gwrthrych a fydd yn helpu i ddatgelu deunyddiau newydd, a'u gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr gydag asesiad curadol eang a fydd yn datgelu'r deunyddiau hanfodol a pherthnasol ar gyfer y prosiect. Y brif flaenoriaeth fydd sicrhau bod yr hyn sydd yno ac wedi'i brosesu eisoes yn hygyrch, ac archwilio deunyddiau sydd heb eu catalogio fydd ail gam y fethodoleg hon. Drwy gynnig mynediad i ddeunyddiau sydd wedi'u prosesu, bydd y gymuned o ddefnyddwyr yn gallu elwa ar y fenter hon o'r cychwyn cyntaf. Ymhellach i hyn, mae gan eu hymgysylltiad nhw'r potensial i lywio darganfyddiad deunyddiau heb eu catalogio perthnasol. Bydd y cam hwn hefyd yn paratoi staff sefydliadol ar gyfer deall y math o ddeunyddiau y gallant ddatgelu neu brosesu a chael profiad ohonynt, gyda'r ieithwedd a'r ddealltwriaeth o wybodaeth ddiwylliannol a fydd yn helpu i ddatblygu dulliau mwy effeithlon ar gyfer prosesu i'r dyfodol.

1.1 Fframwaith yr Arolwg

Rydym yn rhannol wedi modelu fframwaith yr arolwg hwn ar bennod Suzanne Keene "Audits of Care: a framework for collections condition surveys" o'r gyfrol *Care of Collections* a olygwyd gan Simon Knell (Keene, 1994). Er bod rhan sylweddol o fethodoleg yr arolwg yn unol â gwybodaeth bresennol o arolygon casgliadau a phrosesau ar-lein, rydym wedi eu hystyried o safbwynt beirniadol yn dilyn amcanion y prosiect dan sylw. Rydym wedi adeiladu ar fframwaith Keene gyda safbwynt gwrth-hiliol wedi'i lywio gan ein hymchwil ac amcanion y prosiect.

1.2 Amcanion yr arolwg

Amcan y Prosiect *Datgelu Profiadau Bywyd Go lawn Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru* yw gwella ymgysylltiad grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru â chasgliadau drwy weithgareddau cymunedol sy'n eu gwahodd nhw i rannu eu hatgofion personol a chydweithredol i ddod yn rhan o gasgliadau'r sefydliadau hyn. Nod methodoleg yr arolwg yw creu methodoleg effeithlon a chynaliadwy ar gyfer darganfod, prosesu a rhoi mynediad i ddeunyddiau'n ymwneud â chymunedau lleiafrifoedd ethnig drwy safbwynt gwrth-hiliol.

Canllaw cychwynnol yw methodoleg yr arolwg hwn ar gyfer sefydliadau o feintiau, strwythurau a chanolbwyntiau amrywiol. O ganlyniad, anogir sefydliadau i adeiladu ar yr awgrymiadau hyn er mwyn

gwella effeithlonrwydd a chynaliadwyedd eu prosesau. Gall yr awgrymiadau hyn hefyd fod o gymorth i bwysleisio cryfderau eu casgliadau. Felly, mae'n gwneud synnwyr i sefydliadau adnabod eu hamcanion perthnasol eu hunain a diffinio cwmipas eu harolygon yn unol â hynny. Er enghraifft, os oes llawer o ddeunyddiau'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, efallai y bydd y sefydliad yn dewis hepgor rhan casglu data o'r fethodoleg a chanolbwyntio ar wneud y deunyddiau hynny'n fwy hygyrch i ddefnyddwyr. Fel arall, gall sefydliadau sy'n brin o ddeunyddiau wedi'u prosesu ganolbwyntio ar ddarganfod y deunyddiau hyn drwy flaenoriaethu methodoleg arolygu fesul gwrthrych.

Meddyliwch am yr hyn a ganlyn: Beth yw prif amcanion yr arolwg, a beth yw amcanion eilradd yr arolwg?

- Datgelu casgliadau cudd
- Asesu'r casgliadau ar gyfer cyd-destun a chynnwys penodol.
- Argymhell blaenoriaethau ar gyfer prosesu a mynediad
- Gwneud casgliadau yn fwy hygyrch

Beth yw'r amcanion penodol i sefydliad o ran gweithredu'r arolwg?

- Ymgysylltu â grwpiau lleiafrifoedd ethnig penodol
- Cyfleoedd cyllid
- Cyfleoedd cydweithio
- Adborth gan gymunedau lleol neu noddwyr

1.3 Staffio Prosiect yr Arolwg

Mae'n bwysig meddwl am bwy a fydd yn cynnal yr arolwg. Mae'r adnoddau dynol sydd ar gael i bob sefydliad yn amrywio'n sylweddol. Yn ôl rhai meini prawf, gallant bennu eu dewis, megis gwybodaeth neu ymgysylltu â deunyddiau a/neu gysylltiad diwylliannol gyda chynnwys y casgliad a chynbrofiad a/neu hyfforddiant perthnasol mewn arolygon casgliadau. Yn y senario achos gorau, mae gan y sefydliad staff eisoes sy'n cyfateb ag o leiaf un maen prawf; os nad, bydd angen rhoi camau gweithredu ar waith i hyfforddi staff ar gydnabod, trin a disgrifio deunyddiau ynghylch grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Er effeithlonrwydd a chynaliadwyedd, dylid creu hyfforddiant o'r fath gyda'r sefydliad gyda'i adnoddau dynol ac ariannol a darpariaeth.

Mae'n bwysig nodi er na fydd rhai aelodau staff Lleiafrifoedd Ethnig yn fodlon cymryd rhan mewn prosiectau o'r fath, efallai bydd rhai eraill. Ni ddylai eu cysylltiad â diwylliant penodol fod yn ymrwymiad diamheuol i wneud gwaith gwrth-hiliol. Os bydd staff sy'n aelodau o grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn fodlon cymryd rhan mewn prosiect, dylid croesawu eu cyfraniad personol a deallusol gan staff nad ydynt yn rhai Lleiafrifoedd Ethnig mewn trefn sy'n addas ar gyfer graddfa a ffocws yr arolwg.

1.4 Data i'w gasglu

1.4.1 Data Gweinyddol

Ymhlith y data gweinyddol sydd angen ei gasglu mae gwybodaeth ansoddol a meintiol ynghylch y casgliad, yr is-gasgliad, adnabod, prosesau storio a lleoliad eitem.

1.4.2 Disgrifiad ac Arwyddocâd

Ar gyfer y prosiect hwn, rydym wedi grwpio'r disgrifiad a'r asesiad o arwyddocâd mewn proses gyfunol. Fel arfer, mae'r broses ddisgrifio'n gofyn am gofnodi data o ran enw, deunyddiau, math,

proses weithgynhyrchu, cyflawnrwydd, cyflwr gweithio'r eitem, gwybodaeth am gyflwr ffisegol yr eitem, gan gynnwys unrhyw niweidiau a nodir gan yr arolygwr.

Yn ôl amcan cyffredinol yr arolwg, sef asesu curadol, dylid dilyn y broses o gasglu data meintiol gan gasglu gwybodaeth ansoddol am yr eitem lle bydd yr arolygwr yn dod i farn ar arwyddocâd yr eitem ynghylch ffocws y prosiect. Er mwyn sicrhau bod modd i aelodau staff eraill a defnyddwyr bwriedig allu adnabod yr holl wybodaeth sydd wedi'i chofnodi, rhaid talu sylw i gofnodi cyfeiriadau at dermau gwahanol, delweddau, digwyddiadau hanesyddol, grwpiau ethnig a thueddiadau diwylliannol. Efallai y bydd y cyfeiriadau hyn yn dod i'r amlwg mewn ieithoedd gwahanol neu dan dermau amrywiol mewn ffynonellau gwahanol ar sail yr awdur a'r gynulleidfa fwriedig. Er enghraifft, efallai y bydd dogfen gyfreithiol a ysgrifennwyd gan glerc a chofnod dyddiadur yn ymddangos fel eu bod yn cyfeirio at yr un unigolion gydag enwau neu ddisgrifiadau gwahanol. Dylai arolygwyr dalu sylw o'r hyn y maen nhw'n ystyried yn dermau neu ddelweddau ymrannol fel bod modd cymharu ymhellach rhyngddyn nhw.

1.4.3 Gwybodaeth Sensitif a Geiriad

Yn anffodus, mae casgliadau diwylliannol yn llawn eitemau sy'n cynnwys neu sy'n cael eu disgrifio mewn ieithwedd a delweddau hiliol am grwpiau o leiafrifoedd ethnig. Os oes gan sefydliadau system eisoes er mwyn taflu sylw ar ddefnydd cynnwys o'r fath neu ddisgrifiad o'r fath ar eitem mewn termau hiliol, gallant ddefnyddio'r system hon er mwyn sicrhau cysondeb gyda gweddill eu cofnodion a'u gweithrediadau. Os nad oes system o'r fath ar waith, dylid sicrhau bod adnodd ledled y sefydliad ar gael i aelodau staff er mwyn dysgu am dermau a delweddau bychannol ynghylch hil ac ethnigrwydd. Dylai'r sefydliadau hefyd geisio gwneud pob ymdrech i roi hyfforddiant i staff ar sut i arolygu eitemau gyda dull sensitif yn ddiwylliannol.

Er y bydd sefydliadau gwahanol o bosibl yn dewis ymyrryd gyda chynnwys o'r fath i raddau amrywiol, mae'n hanfodol cadw mewn cof y gallai rhai eitemau fod â chynnwys difriol, ond eto bod yn arwyddocaol iawn o ran datgelu hanes y grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru. Mae peidio â phrosesu'r eitemau hyn yn cyfrannu ymhellach at ddileu'r trafferthion a'r erchyllterau a brofodd y cymunedau hyn.

Dylai arolygwyr hefyd fod yn ofalus wrth rannu cynnwys o'r fath gyda chydweithwyr o leiafrifoedd ethnig oni bai fod cais wedi'i wneud ar gyfer cymorth yn y gwaith, neu oni bai bod y cydweithiwr perthnasol hefyd yn gweithio ar y prosiect arolwg ac wedi cydnabod y risg o weld cynnwys o'r fath. Ni ddylai staff lleiafrifoedd ethnig gael eu defnyddio fel ffynonellau gwybodaeth am eu diwylliant a'u hanes, oni bai eu bod nhw'n arbenigwyr neu'n gwirfoddoli i roi cymorth o'r fath.

1.4.4 Hygyrchedd

Mae hygyrchedd yr eitemau a arolygir yn bwysig iawn i'r prosiect arolwg hwn, gan mai un o brif amcanion y prosiect yw annog ymgysylltiad cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig â chasgliadau perthnasol. Mae hygyrchedd diwylliannol eitem yn ystyriaeth hanfodol ar gyfer y prosiect presennol, a gall amrywio o'r wyddor neu'r iaith y caiff ei gyflwyno ynddi, pa fath o ddelweddau y mae'n eu cynnwys, pa fath o enwau neu leoliadau sy'n cael eu trafod, pa systemau calendrau, parthau amser a mesuriadau a gaiff eu trafod.

Dylai'r arolygwr ystyried hefyd materion hygyrchedd ynghylch gallu synhwyrol a meddyliol yn ôl y safonau hygyrchedd presennol sydd ar waith yn y sefydliad. Gall arolygwyr gael golwg ar yr adnodd isod er mwyn ystyried hygyrchedd diwylliannol yn fanwl:

Canllaw Hygyrchedd Diwylliannol Unesco: "Kaunas for All"

<https://es.unesco.org/creativity/policy-monitoring-platform/cultural-accessibility-guide>

1.5 Data ar y gwaith sydd angen ei wneud

1.5.1 Gwaith ar sail cyflwr

O ran data ar y gwaith ar sail cyflwr sydd angen ei wneud, bydd yr arolygwr yn darparu gwybodaeth ar a oes angen glanhau'r eitemau, eu mowntio, rhoi mewn bocs, ategu, ail-fowntio, gwaith trin/cadwraeth, labelu, ail-rwymo neu ail-labelu. Mae'r categorïau hyn yn dibynnu ar leoliad yr arolwg, archif, llyfrgell neu amgueddfa, a chynnwys y casgliadau diwylliannol.

Gall arolygwyr bennu pob categori perthnasol sy'n addas i'w casgliadau a drafftio rhestr wirio neu amrywiadau asesu cyflwr er cyfleustra cofnodi.

1.5.2 Gwaith Hygyrchedd/Cyfieithu

Mae'r data ar hygyrchedd diwylliannol a hygyrchedd i bobl ag anableddau o ran cofnodion a chynnwys yr eitemau yn hanfodol o ran creu'r profiad mwyaf cynhwysol pobl i bob defnyddiwr ac aelod staff yn y sefydliad. Bydd hygyrchedd y wybodaeth brosesu'n cael ei hadolygu, a dylai ddilyn polisiau hygyrchedd y sefydliad. Dylid cofnodi'r gwaith sydd angen ei wneud ar hygyrchedd diwylliannol er mwyn astudio ymhellach a dylid cofnodi hefyd ymholiadau gan y gymuned ynghylch hygyrchedd diwylliannol yr eitemau.

Nid yw hygyrchedd diwylliannol yn awgrymu y dylid cyfieithu archifau, llyfrau cyfan neu lawysgrifau i'r iaith berthnasol mewn llyfrgelloedd. Yn hytrach, dylai defnyddwyr allu lleoli ffynonellau gwybodaeth drwy gymhorthion chwilio penodol sy'n cynnig hygyrchedd diwylliannol, gan gynnwys termau yn yr iaith gyntaf lle bo angen.

Mae'r categorïau meysydd hygyrchedd diwylliannol yn cynnwys, ond nid ydynt yn gyfyngedig i, yr wyddor benodol i ddiwylliant, iaith, delweddau, enwau, lleoliadau a mesuriadau amser neu bellter.

1.5.3 Teitlo ac Ail-ddisgrifio Beirniadol

Bydd teitlo ac ail-ddisgrifio beirniadol eitemau o safbwynt ôl-wladychol a gwrth-hiliol yn un o'r tasgau a fydd yn cymryd y mwyaf o amser yn rhan o'r prosiect arolygu, gan fod angen talu sylw i fanylion a gwneud gwaith ymchwil neu geisio gwybodaeth ymlaen llaw ar yr eitemau o ran ystyr eu data a'r cynnwys i'w brosesu.

Bydd angen rhoi teitlau casgliadau ac eitemau mewn cyd-destun o safbwynt gwrth-hiliol, a dylid sicrhau bod lle ar gael ar gyfer eglurhadau clir o'r elfennau negyddol a'u heffaith ar grwpiau perthnasol. Dylai'r arolygwyr nodi a yw'r eitem neu'r casgliad wedi cael ei brosesu yn flaenorol o'r safbwynt hwn.

Dylai disgrifiadau o gasgliadau ac eitemau gynnwys naratifau sy'n amlwg yn wrth-hiliol. Er enghraifft, dylid nodi perchnogion a masnachwyr caethweision, a dylid cynnwys gwybodaeth amlwg ar adnabod a mamwledydd unigolion oedd yn gaethweision lle bo'n bosibl. Dylai arolygwyr nodi naratifau gwladychol a hiliol, a gwybodaeth sydd wedi dyddio neu sydd wedi cael ei gwrthbrofi wrth brosesu deunyddiau i gael eu dadansoddi drwy ymchwil bellach.

Gall arolygwyr ddefnyddio'r adnoddau isod i gael rhagor o wybodaeth am derminoleg dad-wladychu a gwrth-hiliol:

The Tate - Provisional Semantics: Addressing the challenges of representing multiple perspectives within an evolving digitised national collection

<https://www.tate.org.uk/about-us/projects/provisional-semantics>

Words Matter: An Unfinished Guide To Word Choices in the Cultural Sector

https://www.materialculture.nl/sites/default/files/2018-08/words_matter.pdf.pdf

Alicia Chilcott – Towards Protocols for describing racially offensive language in UK public archives

<https://drive.google.com/file/d/15PtzLH3m-8Skhxr4JXFdtLcaSYGfFON/view>

The Decolonial Dictionary

<https://decolonialdictionary.wordpress.com/>

1.5.4 *Data ar Digidio a Mynediad Ar-lein*

Bydd digideiddio a gwybodaeth ar-lein ynghylch eitemau'n ymwneud â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru yn gwella ymgysylltiad y cymunedau hyn â sefydliadau diwylliannol. Mae angen inni gydnabod efallai na fydd sefydliadau diwylliannol o bosibl yn teimlo eu bod yn croesawu pobl o leiafrifoedd ethnig, neu'n eu bygwth hyd yn oed. Gall hyn ddeillio o drafferthion yn teimlo cysylltiad â sefydliadau fel hyn, neu efallai eu bod nhw'n teimlo'n feirniadol o ychydig o'r cynnwys yn sefydliadau fel hyn, ac mae hyn yn wir am amgueddfeydd sy'n arddangos eitemau sy'n bwysig yn ddiwylliannol allan o gyd-destun. Felly, mae gwefannau a phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol yn hyrwyddo bodolaeth eitemau o'r fath drwy gydnabod yn wrth-wahaniaethol eu hanes a'u cyd-destun yn hanfodol o ran sbarduno a chynnal diddordeb cymunedau lleiafrifoedd ethnig mewn sefydliadau diwylliannol Cymru.

Dylai arolygwyr ddadansoddi a rhannu gwybodaeth ar digido a mynediad ar-lein yr eitemau i arolygu. Gall y rhain gynnwys gwybodaeth ar y math o eitem a sut gellid ei chynrychioli ar-lein neu yn ddigidol, boed hynny drwy wybodaeth gatalog, delweddau, fideos neu ddolenni ac ati.

1.6 *Dulliau'r Arolwg*

1.6.1 *Dulliau Samplu*

Mae samplu yn ddull arolygu y mae Keene yn ei nodi yn fforddiadwy, yn effeithlon ac yn un sy'n arbed amser "lle dim ond rhan o wrthrychau'r casgliad sy'n cael eu harchwilio, yn hytrach nap hob gwrthrych" (Keene 1994, 73). Mae'r fethodoleg hon yn seiliedig ar ddull ystadegol ac mae angen gwybodaeth am sut i ddewis sampl cywir ar gyfer corff cyfan o eitemau. Os caiff ei ddewis yn gywir, gall y sampl gynrychioli'r cyfanrwydd yn gywir (Ibid). Ymhlith manteision defnyddio'r dull hwn mae rheoli adnoddau dynol, amser ac ariannol yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r effaith uchaf bosibl, creu trosolwg o'r casgliadau a arolygwyd heb gynnal dadansoddiad fesul gwrthrych a gallu talu mwy o sylw o fewn eitem a gafodd ei samplu.

O ran arolwg o gasgliadau ar gyfer deunyddiau ynghylch pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, byddai'r dull samplu yn cael ei argymhell i sefydliadau os nad oes prosiect arolygu tebyg ar y pwnc hwn wedi cael ei gyflawni. Gall arolygwyr ddefnyddio'r dull samplu, sy'n seiliedig ar "sampler clwstwr" lle caiff eitemau eu dewis oherwydd eu hagosrwydd storio (h.y. yr un bocs, silff, ac ati) neu gynnal samplu gwirioneddol ar hap drwy ddewis ychydig o eitemau o gasgliadau drwy restr lle bo'n bosibl (Keene 1994, 75). Dylai arolygwyr nodi fod y dull samplu'n gofyn i fod yn gyfarwydd a phrofiad wrth gasglu a dadansoddi data meintiol.

1.6.2 *Arolwg ar sail Termau*

Ar gyfer arolwg o gasgliadau ar gyfer eitemau sy'n berthnasol i hanes cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru, rydym hefyd yn awgrymu asesu eitemau ar sail termau sydd wedi'i lywio gan y Rhestr Derminoleg sampl sy'n rhan o'r astudiaeth hon. Er nad yw'r dull hwn yr un mwyaf effeithiol ar gyfer eitemau sydd heb eu catalogio mewn casgliadau amgueddfeydd, gall fod yn

un o'r dulliau mwyaf effeithiol ar gyfer archifau a llyfrgelloedd lle mae modd arolygu cofnodion mynediad neu gatalogau ar gyfer termau penodol.

Byddai arolwg ar sail termau yn gofyn am bennu gwerth term, hynny yw, ei berthnasedd. Bydd y gwerth hwn yn dibynnu ar arwyddocâd term neu gysyniad penodol i'r arolygwr a diben ac amcanion arolygu penodol y sefydliad. Er enghraifft, bydd arolwg sy'n canolbwyntio ar ddogfennau setliad cychwynnol mewnfudwyr Asiaidd yng Nghymru yn pennu gwerth uwch i'r term "Pakistan" na "Senegal". Fe anogir arolygwyr i greu eu rhestrau terminoleg newidiol eu hunain ar gyfer prosiectau cyn ac yn ystod proses yr arolwg wrth iddynt ddod ar draws termau perthnasol newydd neu ystyron amgen ar gyfer termau presennol yn eu canfyddiadau.

1.6.3 Arolwg ar sail Digwyddiad/Cyd-destun

Mae methodoleg arolwg ar sail digwyddiad neu gyd-destun yn asesu eitemau ynghylch digwyddiad neu gyd-destun lleol penodol sydd wedi cynhyrchu, sy'n cael ei gynrychioli mewn neu sy'n berthnasol i'r eitemau dan feddiant y sefydliad. Y dybiaeth yw bod y sefydliad wedi selio ei ddiben arolygu a'i amcanion ynghylch yr ymchwil ar ddigwyddiad neu gyd-destun hanesyddol penodol. Byddai'r fethodoleg hon yn gweithio orau mewn sefydliad lle nodwyd fod llawer o'r deunyddiau'n berthnasol i ddigwyddiad neu gyd-destun hanesyddol penodol.

Manteision y dull hwn yw y byddai'r sefydliad yn gweithio i gryfderau eu casgliadau, a byddai ganddynt botensial i ddatgelu rhagor o eitemau perthnasol neu nifer fwy o eitemau na'r hyn sy'n bosibl drwy ddulliau eraill. Mae arolwg ar sail digwyddiadau neu gyd-destun yn canolbwyntio ar gryfder storfeydd y sefydliad, wrth fanylu'n bwrpasol ar gwmpas yr arolwg.

1.6.4 Arolwg ar sail Enw/Ffigur

Mae methodoleg arolwg ar sail enw neu ffigur yn asesu eitemau ynghylch unigolyn neu grŵp penodol sy'n hynod berthnasol i'r eitemau ym meddiant y sefydliad. Gall yr unigolyn neu'r gymuned hon fod yn rhoddwr, yn ffigur gwleidyddol neu'n aelod o'r cyhoedd a all fod, neu a allai beidio â bod yn rhan o grŵp Lleiafrif Ethnig. Ta waeth, mae'n debyg y bydd ganddo/ganddynt gysylltiadau penodol ag unrhyw grŵp o'r fath rhyw ffordd. Er enghraifft, gall perchnogion busnes Lleiafrif Ethnig lleol sefydliadau megis gwestai neu hosteli fod yn berthnasol i gymuned ehangach oherwydd eu statws canolog yn cynnig llety dros dro, sy'n wasanaeth hanfodol i fewnfudwyr. Ar y llaw arall, gall hyn fod yn arweinydd crefyddol sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o gymunedau Lleiafrifoedd Ethnig.

Dylai arolygwyr gynnal ymchwil cychwynnol i bennu a oes gwybodaeth o'r fath am ffigurau canolog eisoes yn bodoli yn eu cofnodion ac, os nad, ceisio lleoli ffigurau neu gymunedau o'r fath.

1.6.5 Arolwg ar sail Caffael neu Fynediad

Golyga methodoleg arolwg ar sail mynediad arolygu eitemau ynghylch grwpiau neu drefn fynediad, ac mae angen adnabod grwpiau neu ffynonellau enillfawr at y diben hwn.

1.6.6 Arolygon dan arweiniad y Gymuned

Arolygu dan arweiniad y gymuned (asesu eitemau drwy raglen gymunedol) sy'n gofyn am y buddsoddiad amser mwyaf parhaus, ac adnoddau, gan fod angen trefnu prosiectau neu weithgareddau penodol gyda chymunedau lleiafrifoedd ethnig lleol er mwyn adnabod patrymau o'u straeon. Gall fod yn fuddiol trefnu'r ymatebwyr yn ôl grwpiau oedran (gan rannu profiadau oherwydd cydamseredd) neu grwpiau ethnig (rhannu profiadau oherwydd eu cefndir).

Mae'r dull hwn yn dibynnu ar drefnu prosiect neu systemau ymgysylltiad rheolaidd yn ehangach ymysg cymunedau Lleiafrifoedd Ethnig a chyda'r sefydliad. Mae amrywiaeth o sianeli i gyrraedd ac ymgysylltu â chymunedau ar gyfer prosiectau arolwg:

1. Arbenigwyr diwylliant lleol (ysgolheigion, gweithwyr y sector, arweinwyr diwylliannol, gwleidyddol a chrefyddol)
2. Cymunedau ysgol ddiwylliannol/lleiafrifol (athrawon, disgyblion, cymdeithasau rhieni)
3. Hybiau diwylliannol (gofodau digwyddiadau, ardaloedd lleol)

Unwaith y mae cysylltiadau wedi'u sefydlu gyda'r cymunedau hyn, bydd angen i arolygwyr hyrwyddo arwyddocâd ac amcanion gwaith yr arolwg gyda'r gymuned Lleiafrifoedd Ethnig perthnasol er mwyn dechrau ar y broses recriwtio. Dylai arolygwyr geisio sicrhau cynrychiolaeth heterogenaidd o arbenigwyr a phobl nad ydynt yn arbenigwyr er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gyfartal o farn broffesiynol a phrofiadau bywyd go iawn.

Gall arolygwyr ymgynghori â chymunedau Lleiafrifoedd Ethnig drwy ddulliau amrywiol, gan gynnwys holiaduron, grwpiau trafod a sesiynau dadansoddi gwrthrychau mewn storffeydd neu ar lawr arddangosfeydd. Gellid dod o hyd i rai enghreifftiau o ymgysylltiad o'r fath yn adran Astudiaethau Achos yr astudiaeth hon.

1.7 Gweithdrefnau'r Arolwg

Mae'r camau gweithredu a fydd ar waith wrth gynnal arolwg casgliadau yn dibynnu'n fawr ar y gweithdrefnau presennol; felly, mae'r camau a ddarperir yma yn ganllaw a ddylid ei ddefnyddio ar y cyd â Thaflen Waith yr Arolwg yn Atodiad C.

Yn gyntaf, mae angen i arolygwyr bennu pwrpas yr arolwg, waeth os yw'n nod cyffredinol i ddeall cyfanswm a math yr eitemau yn y casgliad sy'n ymwneud â phrofiadau bywyd go iawn pobl leiafrifoedd ethnig yng Nghymru, neu'n bwrpas fwy targedig wedi'i lywio gan wybodaeth a gafwyd o gasgliadau neu eitemau a broseswyd neu a ddadansoddwyd eisoes. Dylai arolygwyr gofnodi pwrpas yr arolwg a nodi buddion ymchwil posibl a themau perthnasol y tu allan i ddiben y pwrpas ar gyfer y dyfodol.

Y cam nesaf yw disgrifio'r casgliadau a diffinio'r termau sy'n berthnasol i'r casgliadau hyn. Gall arolygwyr ddefnyddio rhai termau perthnasol yn y Rhestr Terminoleg a nodir yn Atodiad B. Gall arolygwyr hefyd adeiladu a chyhoeddi eu rhestr terminoleg newidiol ar gyfer y dyfodol. Y cam olaf i arolygwyr yw cynnal arolwg peilot (gweler Atodiad C: Taflen arolwg peilot) a chofnodi canfyddiadau'r dadansoddiad.

1.8 Adroddiadau'r Arolwg

Bydd y dadansoddiadau a gynhaliwyd yn yr arolwg peilot ond yn ddefnyddiol ar gyfer ymchwil bellach drwy adroddiad cynhwysfawr sy'n crynhoi'r gweithdrefnau a roddwyd ar waith ac sy'n cyflwyno canfyddiadau'r arolwg peilot. Bydd y wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr a staff y sefydliad i allu cynnal ymchwil bellach a dadansoddi eitemau yn y casgliadau.

Er mwyn osgoi cyffredinoli, dylai arolygwyr geisio cynhyrchu adroddiadau arolwg ar wahân ar gyfer pob casgliad. Dylai adroddiad yr arolwg gynnwys gwybodaeth am gyd-destun y casgliad a'i botensial ar gyfer dadansoddiadau pellach.

Dylai adroddiadau'r arolwg hefyd gynnwys diffiniad trylwyr o'r cyd-destun o safbwynt gwrth-wahaniaethol a dad-wladychol. Dylai'r arolygwyr ddarparu gwybodaeth ddisgrifiadol ac egluro arwyddocâd yr eitemau i brofiadau bywyd go iawn pobl o leiafrifoedd ethnig. Dylai arolygwyr hefyd restru'r camau gweithredu sydd angen eu rhoi ar waith i ddatrys problemau gyda'r casgliadau, gan gynnwys cyflawniad cynnwys ysgrifenedig, arferion storio a chadwraeth problemus a hygrychedd diwylliannol y cynnwys.

1.9 Llyfryddiaeth

Keene, Suzanne. 1994. Audits of Care: A Framework for Collections Condition Surveys. In *Care of Collections*, golygwyd gan Simon Knell, 65–90. Llundain, Efrog Newydd: Routledge.

Atodiad A: Rhestr Derminoleg

Ceir isod rhestr gynhwysfawr o dermau sy'n ymwneud â phobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru. Mae gwybodaeth am y math o derm ar gael yn yr ail golofn. Mae cynodiad termau problemus wedi'u nodi yn y drydedd golofn. Mae'r bedwaredd golofn yn cynnwys disgrifiadau am bobl a chysyniadau.

Term/Gair Allweddol	Math	Cynodiad	Diffiniad
9/11 (Nine Eleven)	Digwyddiad	Niwtral	
Abdi Langara	Pobl	Niwtral	(Dyddiadau'n anhysbys) Roedd y dyn yma yn berchen ar dŷ ble roedd morwyr o Somalia yn aros am setliad yn y Deyrnas Unedig.
ACTSA (Gweithredu dros Dde Affrica) Cymru	Sefydliad	Niwtral	
Cymorth Aids ACTSA 2004	Digwyddiad	Niwtral	
Affrica	Lleoliad	Niwtral	
Affricanaidd	NRPE	Cynhennus	
Affro-Garibïaidd/Affricanaidd Caribïaidd	NRPE	Niwtral	
Alan Llwyd (Alan Lloyd Roberts)	Pobl	Niwtral	Roedd Alan Llwyd (1948-presennol) yn fardd, golygydd a beirniad llenyddol o Gymru sy'n enwog am fod yn un o feirdd mwyaf dylanwadol yr 20fed ganrif. Golygydd lyfr ar hanes pobl ddu Cymru.
Ali Abdul	Pobl	Niwtral	(Dyddiadau'n anhysbys) Dyn Arabaidd wnaeth danio gwn ar Stryd Homfray Street a chafodd ei arestio'n nes ymlaen yn ystod ymosodiadau ar gymdogaethau du yng Nghaerdydd yn ystod terfysgoedd hil 1919.
America	Lleoliad	Niwtral	
Stryd Angelina	Lleoliad	Niwtral	
Actifyddion Gwrth-Apartheid	Pobl	Niwtral	Roedd actifyddion Gwrth-Apartheid yn unigolion wnaeth gyfrannu yn y sefydliad Prydeinig, o'r enw'r mudiad Gwrth-Apartheid, oedd yn gwrthwynebu system apartheid De Affrica. Roedd y bobl hyn yn eirioli dros bobl Ddu yn Ne Affrica oedd yn wynebu gwahaniaethu.
Antigua	Lleoliad	Niwtral	
Cynghreiriad	Cysyniad	Niwtral	Mae cynghreiriad yn aelod o grŵp breintiedig sy'n eirioli dros

			hawliau grwpiau ymylol mewn sawl cyd-destun.
Hiliaeth gwrth-Fwslimaidd	Cysyniad	Niwtral	Hiliaeth sy'n targedu unigolion Mwslimaidd o wledydd gyda phoblogaeth Fwslimaidd fel mwyafrif. Gweler <i>Hiliaeth</i> .
Gwrth-Hiliaeth/Hiliol	Cysyniad	Niwtral	Y gred y dylai pobl o bob grŵp hiliol gael cyfle a hawliau cyfartal. Person sy'n credu'n rhagweithiol mewn ecwiti hiliol.
Gwrth-semitiaeth	Cysyniad	Niwtral	Math o hiliaeth gan gynnwys gwahaniaethu a gelyniaeth yn erbyn unigolion Iddewig. Gweler <i>Hiliaeth</i> .
Apartheid	Digwyddiad	Niwtral	
Apartheid	Cysyniad	Niwtral	System o wahaniaethu neu arwahanu yn ôl hil, crefydd neu genedligrwydd.
Arab	NRPE	Niwtral	
<i>Art from China</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosf a	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
<i>Arts of India</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosf a	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
<i>Asafo!: Fante Flags from Africa</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosf a	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Asiaidd Indiaidd	NRPE	Niwtral	
Cydweddiad	Cysyniad	Niwtral	Y broses lle mae unigolyn lleiafrifol, drwy waredu'n rhannol neu yn llawn ei ddiwylliant ei hun, yn cael ei gynnwys yn rhan o'r diwylliant dominyddol drwy gyflawni ei werthoedd a'i ymddygiad.
Ceisiwr lloches	Cysyniad	Niwtral	Mewnfudwr sy'n cael ei adleoli drwy orfodaeth neu sy'n dianc o'i wlad er mwyn dianc rhag niwed iddo ef ei hun a'i deulu. Unwaith y bydd yn cael ei dderbyn i'r wlad gyrchfan, maen nhw'n dod yn ffoadur. Gweler <i>Ffoadur</i> .
Yr Iwerydd	Lleoliad	Niwtral	

Bangladeshaidd	NRPE	Niwtral	
Benjamin Evans	Pobl	Niwtral	Roedd Benjamin Evans (1844-1900) yn weinidog cynulleidfaoi o Gymru a oedd yn weinidog i ddechrau yn Llanuwchllyn, Sir Feirionnydd. Bu iddo wynebu llawer o erlyniad, er iddo allu gwneud ei waith mewn heddwch yn y pen draw. Cyhoeddodd "The Waitings of the Black Men in the Sugar Islands" a "Sufferings of the Black Men in Jamaica."
Bert Pearce	Pobl	Niwtral	Roedd Herbert Pearce (1919-2002) yn gomiwnydd o Gymru a wnaeth ddilyn yn olion troed ei rieni drwy ymuno â'r Blaid Lafur. Roedd hefyd yn gweithio fel clerc.
Du	NRPE	Niwtral	
Du	NRPE	Difriol/Gwahaniaethol	
Bywydau Du o Bwys DU	Sefydliad	Niwtral	
Blackamoor	NRPE	Difriol/Gwahaniaethol	
BME/BAME	NRPE	Cynhennus	
Bodrhuddan	Lleoliad	Niwtral	
Bryste	Lleoliad	Niwtral	
Prydain	Lleoliad	Niwtral	
Prydeinig	NRPE	Niwtral	
Ynysoedd Prydain	Lleoliad	Niwtral	
Buenos Aires	Lleoliad	Niwtral	
Caerfyrddin	Lleoliad	Niwtral	
Caerdydd	Lleoliad	Niwtral	
Caerfyrddin	Lleoliad	Niwtral	
Cawcasaidd	NRPE	Cynhennus	
Cecily Jones	Pobl	Niwtral	Athro diwinyddiaeth, newyddiadur a bardd.
<i>Centre Ocean Stream (Kathakali Tour)</i>	Cynnyrch Diwyllianno I - Arddangosf a	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Charles Emanuel	Pobl	Niwtral	
Charles Hayes	Pobl	Niwtral	Roedd Charles Hayes (1678-1760) yn fathemategwr a chymrodd ran yn y fasnach gaethweision rhwng Gambia a Buenos Aires.
Tsieineaidd	NRPE	Niwtral	

<i>Chinese Art Academies Printmaking</i>	Cynnyrch Diwyllianno I - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Chris Evans	Pobl	Niwtral	Chris Evans (?- presennol) yw awdur “Slave Wales: the Welsh and Atlantic slavery 1660-1850” ac mae’n addysgu Hanes ym Mhrifysgol De Cymru.
<i>Cizhou Ware: Exhibition from China</i>	Cynnyrch Diwyllianno I - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Bar lliw	Cysyniad	Difriol/Gwahaniaethol	(Wedi dyddio) System gymdeithasol sy’n gwadu cyfle a hawliau cyfartal i bobl Ddu ac unigolion nad ydynt yn Wyn o gymharu â phobl Wyn.
Plaid Gomiwnyddol Cymru	Sefydliad	Niwtral	
<i>Contemporary Aboriginal Art: Tagari Lia My Family</i>	Cynnyrch Diwyllianno I - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
<i>Contemporary Japanese Prints</i>	Cynnyrch Diwyllianno I - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
D. Silvan Evans	Pobl	Niwtral	Roedd D. Silvan Evans (1818-1903) yn glerigwr, cyfieithydd, golygydd a geiriadurwr o Gymru oedd yn canolbwyntio ar grefydd, ysgolheigiaeth, ieithoedd, llenyddiaeth ac ysgrifennu, ac argraffu a chyhoeddi. Roedd hefyd yn pregethu ymysg Annibynwyr.
David Dabydeen	Pobl	Niwtral	Mae David Dabydeen (1955-presennol) yn nofelydd, bardd, academydd a darlledwr o Gyuana. Roedd yn llysgennad UNESCO ar gyfer Guyana, yn rhan o’r Cyngor Cyffredinol, ac fe oedd aelod ieuengaf Bwrdd Gweithredol UNESCO.
David Moore	People	Niwtral	Roedd David Moore (dyddiadau’n anhysbys) yn archifydd oedd yn gweithio tuag at gasglu

			gwybodaeth ar y fasnach gaethweision a diddymwr.
<i>Dayanita Singh</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosf a	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Delaforest	Pobl	Niwtral	Cytunodd y teulu Delaforest gyda Thomas Picton am symud adeiladau, anifeiliaid, planhigfeydd a phobl oedd yn gaethweision ledled Trinidad er ffyniant.
Delgrada	Pobl	Niwtral	
Delia Jarret Macauley	Pobl	Niwtral	Mae Delia Jarret Macauley (1958- presennol) yn awdur Prydeinig o dras Sierra Leonaidd sy'n gweithio fel academydd a darlledwr. Mae hi wedi rhyddhau nofel o'r enw "Moses, Citizen & Me," sy'n fath o ysgrifennu gwleidyddol.
Cam-feddiannu diwylliannol	Cysyniad	Niwtral	Defnyddio elfennau diwylliannol drwy nwyddhâu neu ar gyfer budd personol neu economaidd heb barchu ei werth ar gyfer y diwylliant gwreiddiol.
Allgludo	Cysyniad	Niwtral	Mae allgludo yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ar gyfer gwladolion tramor, ac mae'n golygu gwaredu preswlydd o wlad a gall fod ar sail diffyg fisa neu weithgarwch troseddol nad yw'n arwain at gosb gyfreithiol.
Carchariad	Cysyniad	Niwtral	Gwaredu rhyddid unigolion er mwyn pennu gwybodaeth am eu hunaniaeth a'u hawl i barhau yn y wlad neu ar y ffordd i'w warediad o'r wlad.
Diaspora	Cysyniad	Niwtral	Gwasgariad pobl o'u gwlad wreiddiol.
Gwahaniaethu	Cysyniad	Niwtral	Trin unigolion a grwpiau yn anghyfiawn a drwy wahaniaethu oherwydd eu gwahaniaeth hiliol, crefyddol, cenedlaethol neu ddiwylliannol.
<i>Displaced: Contemporary Art from Colombia</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosf a	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Dominica	Lleoliad	Niwtral	

Dr Rufus Leicester Fennell	Pobl	Niwtral	Roedd Dr Rufus Leicester Fennell (1887-1974) yn feddyg rhyfel Gorllewin India a fu'n gofalu am filoedd o filwyr Prydeinig. Roedd yn eiriolwr cymunedol yn ystod Terfysgoedd Hil Caerdydd yn 1919; felly, roedd yn siarad ar ran y gymuned a drefnodd cyfarfodydd y protest. Cyhuddodd yr heddlu o hiliaeth, ond roedd yn annog ei gefnogwyr i brotestio'n heddychlon. Bu'n galw ar y llywodraeth i fod yn fwy rhagweithiol am ddigwyddiadau hiliol, ond cafodd ei arestio gan yr heddlu ar gyhuddiad ffug. Helpodd unigolion i ddod o hyd i gartref yng Nghymru neu dramor.
India'r Dwyrain	Lleoliad	Niwtral	
Edward Colston	Pobl	Niwtral	Roedd Edward Colston (1636-1721) yn fasnachwr o Loegr. Roedd yn aelod o'r blaid Geidwadol a bu'n chwarae rhan sylweddol yn y fasnach gaethweision ar draws yr Iwerydd yn y 1600au a'r 1700au.
Edward Scobie	Pobl	Niwtral	Roedd Edward Scobie (1918-1996) yn hanesydd, newyddiadurwr a chyhoeddwr cylchgronau a gafodd ei eni yn Nominica, ac roedd yn enwog am ei ymchwil ar hanes pobl ddu yng Ngorllewin Ewrop. Hefyd, ysgrifennodd lyfr yn 1972 o'r enw "Black Britannia: A History of Blacks in Britain."
Edward Williams (Iolo Morgannwg)	Pobl	Niwtral	Roedd Edward Williams (1747-1826) yn gwrthwynebu'r fasnach gaethweision yn llwyr. Roedd yn siarad yn agored am y pwnc ac ysgrifennodd amdano fel bod modd iddo werthu ei waith i unigolion oedd yn cefnogi'r fasnach ym Mryste.
Eifftiaid	NRPE	Niwtral	
<i>Egyptian Landscape: Weavings from the Ramses Wissa Wassef School</i>	Cynnyrch Diwyllianno I - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian

Canllaw etholiadau i weithredu'n lleol 1996-2000	Digwyddiad	Niwtral	
Elijah Waring	Pobl	Niwtral	Roedd Elijah Waring (1787-1857) yn awdur Eingl-Cymraeg a wnaeth gynhyrchu cyfnodolyn yn Abertawe wedi'i ysgrifennu yn Saesneg.
Grŵp Lleiafrif Ethnig	Cysyniad	Niwtral	Lleiafrif ethnig yw grŵp o bobl gyda hunaniaethau hanesyddol, diwylliannol, crefyddol neu hiliol a rennir sy'n cynrychioli cyfran lai o'r boblogaeth mewn rhanbarth. Maen nhw'n aml yn profi mathau o wahaniaethu yn dibynnu ar hanes y gymdeithas.
Ethnigrwydd	Cysyniad	Niwtral	Mae ethnigrwydd yn pennu grŵp o bobl gyda chfres a rennir o draddodiadau, llinach, hanes, y gymdeithas y maen nhw'n byw ynddi a'u diwylliant, ac weithiau'n croestorri gyda chenedligrwydd, crefydd a thriniaeth gymdeithasol.
Ethnigrwydd/grŵp ethnig	Cysyniad	Niwtral	Gweler <i>Ethnigrwydd a Grŵp Lleiafrif Ethnig</i>
Ethnoganolog	Cysyniad	Niwtral	Math o feddwl yw hyn ble mae unigolyn neu grŵp yn cymhwyso gwybodaeth o'u hymddygiad neu arferion diwylliannol i feirniadu neu ddatrys problemau o fewn grŵp ethnig arall.
Ewropeaidd	NRPE	Niwtral	
Eithafiaeth	Cysyniad	Niwtral	Bod â chredoau a barn benboeth am bwnc. Mae eithafiaeth yn bodoli mewn sawl diwylliant o amgylch y byd.
Ffasgaeth	Cysyniad	Niwtral	Math o genedlaetholdeb eithafol sy'n seiliedig ar system lywodraethu unbenaethol sy'n tawelu anghytundeb ac yn gweithredu strwythur cymdeithasol ac economaidd anoddefgar.
'Fake News' Rhaglen Lythrennedd y Cyfryngau gydag Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd, Ysgol Uwchradd	Cynnyrch Diwyllianno I	Niwtral	Astudiaeth achos ar gael ar gais gan Lyfrgelloedd ac Archifau Prifysgol Caerdydd

<i>Fitzalan a Media Wales/Reach PLC</i>			
Folarin Shyllon	Pobl	Niwtral	Roedd Folarin Shyllon (1940-2021) yn athro a wnaeth frwydro yn erbyn masnachu eiddo diwylliannol yn anghyfreithlon. Ysgrifennodd ddau o lyfrau "Black Slaves in Britain" a "Black People in Britain." Fe oedd Deon sylfaenol Adran y Gyfraith ym Mhrifysgol Ibadan, Nigeria. Bu'n gweithio fel pennaeth y Pwyllgor ar Wella Archifau Cenedlaethol Nigeria.
Ffrainc	Lleoliad	Niwtral	
Franz Fanon	Pobl	Niwtral	(1925-1961) Athronydd Ffrangeg India'r Gorllewin sydd wedi cyfrannu gwaith canonaidd at feysydd astudiaethau ôl-wladychol a theori gritigol.
Ffrengig	NRPE	Niwtral	
Fruits of freedom 1996	Digwyddiad	Niwtral	
G.J.Williams	Pobl	Niwtral	Roedd G. J. Williams (1892-1963) yn athro ac ysgolhaig o Gymru a oedd yn canolbwyntio ar addysg, ysgolheigiaeth ac ieithoedd. Roedd yn canolbwyntio ei ysgrifennu ar waith lolo Morgannwg.
Gambia	Lleoliad	Niwtral	
Gemma Romain	Pobl	Niwtral	Mae Gemma Romain (?-presennol) yn hanesydd sy'n canolbwyntio ar hanes Caribiaidd a Du Prydain. Mae'n ymchwilio archifau, celf, a hanesion LGBTQ+ Du Prydeinig. Mae hi hefyd yn canolbwyntio ar ddiaspora Affricanaidd-Caribiaidd, yn enwedig Grenada a Jamaica.
Y boblogaeth gyffredinol	Cysyniad	Niwtral	Mae hyn yn cyfeirio at boblogaeth breswyl gwlad neu ranbarth o'r byd, gan gynnwys yr amrywiaeth o bobl sy'n byw ynddi, waeth beth fo'u cenedligrwydd, diwylliant neu ethnigrwydd.
George Whitefield	Pobl	Niwtral	Roedd George Whitefield (1714-1770) yn bregethwr. Roedd yn croesawu Affricanwyr Americanaidd ac yn chwarae rhan hanfodol yn y mudiad Methodistiaidd.

Georgia	Lleoliad	Niwtral	
Geraint H. Jenkins	Pobl	Niwtral	Mae Geraint H. Jenkins (1946-presennol) yn hanesydd Cymraeg ac yn athro academiaidd yn Hanes Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth rhwng 1990 i 1993. Yn y brifysgol, fe oedd cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Cymraeg a Cheltaidd Uwch Prifysgol Cymru.
Geto	Cysyniad	Contested	Ardal ddifreintiedig yn economaidd ac yn drefedigaethol lle mae llawer o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yn byw.
Glansevern Estate Records	Sefydliad	Niwtral	
Swydd Gaerloyw	Lleoliad	Niwtral	
Gogerddan	Lleoliad	Niwtral	
<i>Goliwog / golly / wog</i>	Cynnyrch Diwyllianno l	Difriol/Gwahaniaeth ol	
Goronwy Owen	Pobl	Niwtral	Roedd Goronwy Owen (1723-1769) yn fardd-feistr Cymraeg o'r 24 metr barddol traddodiadol. Yn y pen draw, cafodd ei alltudio, ond roedd yn dal i fod yn rhan hanfodol o'r mudiad llenyddol a hynafiaethol, sy'n cael ei alw yn 'Dadeni Cymru yn y Deunawfed Ganrif'.
<i>Grace Ndiritu: Still life and responsible tourism</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Prydain Fawr	Lleoliad	Niwtral	
Grenada	Lleoliad	Niwtral	
Gretchen Gerzina	Pobl	Niwtral	Mae Gretchen Gerzina (1947-presennol) yn awdur ac yn academydd Americanaidd. Yn bennaf, mae hi wedi ymchwilio ac ysgrifennu am astudiaethau bywgraffiadol ar sail hanes.
Gwallter Mechain	Pobl	Niwtral	Roedd Gwallter Mechain (1761-1849) yn fardd Cymraeg, yn glerigwr Anglicanaidd, yn olygydd, yn gyfieithydd ac yn hynafiaethydd a anwyd yng nghanol yr 1700au. Roedd yn arolygu amaethyddiaeth ac economi Cymru.

Gwyn A. Williams	Pobl	Niwtral	Roedd Gwyn A. Williams (1925-1995) yn hanesydd Cymraeg a oedd yn enwog am ei waith ar Antonio Gramsci, Francisco Goya, a hanes Cymru. Roedd yn enwog am fod yn Farcsydd, ond trawsnewidiodd ei ffordd o feddwl yn ôl dysgu am system Rwsia o ganlyniad i gamau gweithredu Stalin.
Sipsi	NRPE	Cynhennus	
Haadzi 'Aali	Pobl / Lleoliad	Niwtral	(Dyddiadau'n anhysbys) Perchennog llety bychan i Somaliaid a oedd ar waith yn ystod terfysgoedd hil De Cymru yn 1919.
Hadji Mahomet	Pobl	Niwtral	Gweinidog Somaliaidd (dyddiadau'n anhysbys) a fu'n cuddio ar do ei dŷ wrth iddo gael ei ddinistrio gan y torfeydd yn ystod terfysgoedd hil De Cymru 1919.
Haiti	Lleoliad	Niwtral	
Hakim Adi	Pobl	Niwtral	Mae Hakim Adi (? - presennol) yn hanesydd ac ysgolhaig o Brydain sydd wedi ymchwilio materion Affricanaidd. Ysgrifennodd am Ban-Affricanyddiaeth, hanes gwleidyddol modern Affrica a'r diaspora Affricanaidd. Yn 2018, ysgrifennodd lyfr o'r enw "Pan-Africanism: A History."
Haneef Bhamjee	Pobl	Niwtral	Roedd Haneef Bhamjee (1946-2022) yn ymgyrchwr De Affricanaidd-Prydeinig ac yn un o'r bobl a drefnodd y Mudiad Gwrth-Apartheid. Roedd hefyd yn ysgrifennydd i Fudiad Gwrth-Apartheid Cymru rhwng 1981 ac 1994.
Harpton Court Estate Records	Sefydliad	Niwtral	
Harriet Beecher	Pobl	Niwtral	Roedd Harriet Beecher Stowe (1811-1896) yn awdur Americanaidd ac o blaid dileu caethwasiaeth. Ysgrifennodd y nofel "Uncle Tom's Cabin," sy'n canolbwyntio ar yr amodau problemus yr oedd Americanwyr Affricanaidd yn byw ynddynt yn ystod y cyfnod caethwasiaeth.

Hindŵ	NRPE	Niwtral	
Hispanic	NRPE	Niwtral	
Holocaust	Digwyddiad	Niwtral	
Ian Campbell	Pobl	Niwtral	(1943-1998) Actifydd heddwch a dylunydd baneri.
Ibrahim Ismaa'il	Pobl	Niwtral	Yn forwr Somaliaidd, roedd Ismaa'il (dyddiadau'n anhysbys) yn gweithio yn llynges fasnachol Prydain gyda morwyr o India'r Gorllewin. Roedd yn dyst i derfysgoedd gwrth-fewnfudwyr ar ddiwedd y Rhyfel Mawr. Roedd diffyg cyflogaeth bryd hynny, a phobl o liw oedd yn cael y bai am hynny.
<i>Ikats: Woven silks from Central Asia the Rau Collection</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Indiaid	NRPE	Niwtral	
Indiaid (ar gyfer pobl frodorol America)	NRPE	Difriol/Gwahaniaethol	
Indiaid (ar gyfer pobl o India)	NRPE	Niwtral	
<i>Indian Costumes from Guatemala</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
<i>Indian Painting from Court and Village</i>	Cynnyrch Diwyllianno l - Arddangosfa	Niwtral	Archifau Oriel Gelf Glyn Vivian
Brodorol	NRPE	Niwtral	
Mewnfudwr	Cysyniad	Niwtral	Unigolyn sy'n mudo i wlad newydd i fyw yn barhaol.
<i>Rhaglen Arloesedd i Bawb gydag Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant Prifysgol Caerdydd ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru</i>	Cynnyrch Diwyllianno l	Niwtral	Astudiaeth achos ar gael ar gais gan Lyfrgelloedd ac Archifau Prifysgol Caerdydd
Hiliaeth Sefydliadol	Cysyniad	Niwtral	Mae hyn yn cyfeirio at y gwahaniaethu y gallai grŵp ethnig, hiliol neu grefyddol weithiau ei wynebu mewn cymdeithas, yn enwedig os ydyn

			nhw'n grŵp lleiafrifol. Mae'r mathau hyn o wahaniaethu yn seiliedig ar ffactorau economaidd a gwleidyddol, yn enwedig yn y sectorau addysg a chyflogaeth. Yn gyffredinol, mae pobl wyn neu bobl â chroen goleuach yn cael eu trin yn fwy teg yn y rhan fwyaf o gymdeithasau ledled y byd.
Integreiddiad	Cysyniad	Niwtral	Ystyr integreiddiad yw dod â dau grŵp hiliol, ethnig neu grefyddol gwahanol at ei gilydd i fyw, gweithio ac addysgu yn yr un ardal, yn heddychlon neu gyda dicter.
Croestoriadedd	Cysyniad	Niwtral	Mae'r term yma yn disgrifio sut y gall unigolyn brofi manteision cymdeithasol a sefydliadol neu ddiffyg mewn cymdeithas, yn seiliedig ar eu hunaniaeth, ynghylch eu hil, ethnigrwydd, cenedligrwydd, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, gallu corfforol a meddyliol a chrefydd.
Iwerddon	Lleoliad	Niwtral	
Gwyddelig	NRPE	Niwtral	
Islamaffobia	Cysyniad	Niwtral	Math o hiliaeth gan gynnwys gwahaniaethu a dicter yn erbyn unigolion Mwslimaidd a gwledydd sy'n Fwslimaidd yn bennaf. Gweler <i>Hiliaeth</i> .
J.A. Rogers	Pobl	Niwtral	Roedd J.A. Rogers (1880/3-1966) yn awdur Americanaidd o dras Jamaica a oedd yn gweithio fel newyddiadurwr a hanesydd. Roedd yn canolbwyntio ar hanes Affrica a'r diaspora Affricanaidd.
Jamaica	Lleoliad	Niwtral	
James G. Basker	Pobl	Niwtral	Roedd James G. Basker (?-presennol) yn athro ym Mhrifysgol Harvard a wnaeth arbenigo yn hanes caethwasiaeth a dileu caethwasiaeth. Mae wedi ysgrifennu sawl llyfr ar gaethwasiaeth, rhyddhau, gwladychu a diwylliant.
Jerry Hunter	Pobl	Niwtral	Mae Jerry Hunter (?-presennol) yn academydd Americanaidd ac yn ysgrifennu rhyddiaith yn Gymraeg. Cwblhaodd ddarn o waith o'r enw "Welsh Writing from the American

			Civil War," a oedd ar bwnc hanes Cymru, ond a gafodd ei gyhoeddi yn Saesneg.
